

UGEINFED CYFARFOD CADEIRYDDION FFORYMAU MYNEDIAD LLEOL YNG NGHYMURU

NODYN CYFARFOD

Dyddiad: 7 Rhagfyr 2017

Lleoliad: Canolfan Lletygarwch Powys, Welshpool Livestock Sales, SY21 8SR

Amser: 10.30am – 3pm

Presennol:	Vincent Mears (Arfon Dwyfor), Ian Maberley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), William Lindsay (Caerffili), John Morgan (Ceredigion a'r Cadeirydd Cenedlaethol), Gwen Butler (Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych), Bryan Harrison (Sir y Fflint), Dewi ap Rhobert (Ynys Môn), Tony Rooney (Sir Benfro), Chris Tomley a Richard Tyler (Powys), Tony Yule (Rhondda Cynon Taf), Hedd Pugh (De Eryri), Tim Stratton (Wrecsam), Carys Drew (Ysgrifenyddiaeth, CNC), Quentin Grimley (CNC), Evelyn Over (CNC)
Ymddiheuriadau:	Edwin Noble (Gogledd Eryri), Mark Hadley (Caerfyrddin), Edwin Guilliford (Cymoedd y Dwyrain), Anne Underwood (Sir Fynwy, Casnewydd)
1.	<p>Cyflwyniad ac amlinelliad o'r diwrnod</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Richard Tyler a Tony Yule, a oedd yn mynychu am y tro cyntaf.</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan sawl fforwm mynediad lleol (gweler uchod); nid oedd cadeiryddion rhai fforymau wedi ymateb. Nid oedd y Cadeirydd ar gyfer Gogledd Eryri wedi derbyn hysbysiad cynnar am y cyfarfod oherwydd problem (sydd eisoes wedi'i chywiro) â chronfa ddata swyddogion cyswllt yr Ysgrifennydd.</p> <p>Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol ystyried teitl y cyfarfod yn y dyfodol am fod 'Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru' yn rhy hir.</p>
2.	<p>Nodiadau'r cyfarfod diwethaf</p> <p>Roedd nodiadau'r cyfarfod wedi cael eu cylchredeg dros e-bost a derbyniwyd cymeradwyaeth eu bod yn gywir; ni leisiwyd unrhyw bryderon.</p> <p>Roedd y Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth wedi cwrdd yn flaenorol i sicrhau bod unrhyw gamau wedi cael sylw.</p> <p>Ers cyfarfod diwethaf y cadeiryddion, roedd dau gyfarfod ar y cyd anffurfiol ar gyfer ysgrifenyddion a chadeiryddion wedi cael eu cynnal,</p>

	<p>un ohonynt yng ngogledd Cymru a'r llall yn y de. Nid oedd unrhyw gamau i'w trosglwyddo i gyfarfod y cadeiryddion o ganlyniad i'r rhain. Sicrhawyd bod nodyn ar gael ar gyfer cyfarfod de Cymru. Roedd pwnc ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ac ymatebion unigol gan y fforymau mynediad lleol wedi cael eu trafod yn y ddau gyfarfod.</p> <p>Gofynnwyd am adborth yng nghyfarfodydd ar y cyd y de a'r gogledd, ac er y cafwyd sawl sylw cadarnhaol o blaid cynnal cyfarfodydd llai o faint, y consensws oedd y byddai cynhadledd genedlaethol ar gyfer fforymau mynediad lleol yn well, ac y dylai hon fod â mwy o bwyslais ar waith y fforymau mynediad lleol a chynnwys yr ysgrifenyddion yn fwy, yn hytrach na defnyddio nifer o siaradwyr allanol.</p> <p>Nododd Carys fod y galw am y cyfarfodydd anffurfiol hyn wedi codi yn sgil y penderfyniad i ganoli cymorth CNC ar dri chyfarfod y cadeiryddion, gydag CNC dim ond yn darparu ystafell (lle y bo'n bosibl) ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol. Pe bai'r cyfarfodydd llai o faint hyn yn ddefnyddiol yn y dyfodol, byddai angen ystyried darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a chymryd nodiadau.</p> <p>Cam gweithredu 20.1: Unrhyw atebion gan fforymau mynediad lleol unigol i'w hanfon at Carys Drew i'w coladu.</p>
3.	<p>Llythyr i'r Gweinidog</p> <p>Roedd un cam gweithredu wedi codi yn ystod cyfarfod de Cymru lle, wrth ddysgu bod oddeutu 16,000 o ymatebion wedi eu gwneud mewn perthynas ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar <i>Fwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy</i>, anogwyd y Cadeirydd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i bwysleisio swyddogaeth y fforymau mynediad lleol a gofyn am iddynt gael eu cynnwys mewn cyfarfodydd dilynol a fyddai'n cael eu cynnal â rhanddeiliaid allweddol eraill.</p> <p>Rhoddwyd y llythyr a'r ymateb ar led. Diolchwyd i'r Cadeirydd am ysgrifennu'r llythyr, a chytunwyd bod yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol wrth gydnabod swyddogaeth y fforymau mynediad lleol a chadarnhau y byddai'r fforymau mynediad lleol yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd â'r Gweinidog.</p> <p>Nodwyd bod beicwyr wedi darparu ymateb ymgyrchol i'r ymgynghoriad, ond bod fforymau mynediad lleol yn ei chael hi'n anodd darbwyllo buddiannau beicio i ymuno â'r fforymau mynediad lleol. Cyfeiriodd y Cadeirydd at gwestiwn roedd wedi gofyn i Cycling UK yn y Fforwm Mynediad Cenedlaethol, lle cydnabuwyd bod angen datblygu'r strwythur yng Nghymru. Arweiniodd hyn at drafodaeth am ddigwyddiadau wedi'u trefnu ac atebolrwydd pe bai damweiniau.</p> <p>Cam gweithredu 20.2: Tim Stratton i ystyried a mireinio eitem bosibl ar gyfer yr agenda yn y dyfodol ynghylch grwpiau cyfundrefnol ac atebolrwydd mewn digwyddiadau</p>

4.

Diweddariad ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ac ymateb CNC i'r ymgynghoriad

Rhoddodd Carys Drew, Swyddog Polisi Mynediad a Hamdden, a Quentin Grimley, Arweinydd y Tîm Mynediad, gyflwyniad i ddiweddarau'r cyfarfod ynghylch dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r ymatebion hyd yma i'w hymgynghoriad ar *Fwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*.

Yna aethant ati i rannu gwybodaeth am y dull strwythuredig a gymerwyd gan CNC wrth hel ei ymatebion i'r ymgynghoriad at ei gilydd, a gwnaethant ganolbwyntio ar fanylion yr ymateb a roddwyd i bedwar o'r 17 o gynigion mynediad.

Pwyntiau trafod:

- Gwnaed sawl pwynt am reoli cŵn yn y cefn gwlad ac effaith ymosodiadau cŵn ar dda byw.
- Dywedodd mynychwyr fod ymateb CNC a'r problemau manwl roedd CNC wedi'u canfod wedi rhoi argraff dda iddynt.
- Mae angen eglurhad ynghylch aelodaeth ar ôl i dymor fforwm mynediad lleol ddod i ben (tair blynedd wedi'r cyfarfod cyntaf) tan i fforwm mynediad lleol newydd gael ei ffurfio, a phroblemau pan oedd oedi wrth ffurfio fforwm mynediad lleol.
- Dylid ystyried statws cyfarfod Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol.
- Roedd ymateb CNC i gynig 27, ar y cyfan, wedi'i alinio ag ymateb cyfarfod Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol.
- Mae'r awgrym y gallai fforymau mynediad lleol chwarae rhan yn y gwaith o oruchwylio cyfleoedd cyllid sy'n addas ar gyfer mynediad, ffynonellau cyllid a chyd-destun wedi newid yn aruthrol yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf.
- Bydd sicrhau y darperir digon o adnoddau'n tanategu llwyddiant unrhyw gynigion yn y dyfodol.
- Pryder ynghylch diogelwch defnyddwyr ar lwybrau a rennir.
- Mae angen diffinio termau yn yr ymgynghoriad, e.e. llong.
- Goblygiad newid y cyfyngiad 'unrhyw anifail ar wahân i gi' yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy mewn perthynas â chloi ffermydd am chwe diwrnod ar ôl rhoi rheolaethau ar waith i atal clwy'r traed a'r genau rhag lledaenu.

	<ul style="list-style-type: none"> • Pryder y byddai caniatáu gwersylla ar dir mynediad agored yn effeithio'n andwyol ar fusnesau gwledig.
5.	<p>Cais cynllunio Powys</p> <p>Cododd Richard Tyler y mater o gais cynllunio – o fis Ebrill 2018 bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos hawliau tramwy cyhoeddus ar ffurflenni cais. Gofynnodd am lythyr ategol gan John Morgan; cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod y tu allan i'r cyfarfod.</p> <p>Cam gweithredu 20.3: Richard Tyler a'r Cadeirydd i drafod y broblem</p>
6.	<p>Glastir: adborth yn sgil cyfarfod â Jane Tibbott</p> <p>Roedd y Cadeirydd a'r Dirprwy wedi cwrdd â Jane Tibbott, Glastir Uwch, i drafod y canllawiau ar gyfer fforymau mynediad lleol, cyswllt rhwng swyddogion Glastir a fforymau mynediad lleol, a gweithredu Glastir Uwch. Nid oedd unrhyw fwriad i newid y canllawiau ar hyn o bryd, ond nodwyd bod problemau cyfathrebu mewn perthynas â'r ffaith nad yw fforymau mynediad lleol yn ymwybodol pan fo unrhyw awgrymiadau mynediad caniatol yn cael eu symud ymlaen. Roedd nodyn o'r cyfarfod wedi cael ei rannu gyda Jane Tibbott, a ddywedodd na fyddai'r trefniadau presennol yn cael eu newid, ond y byddai materion yn cael eu hystyried mewn unrhyw gynllun ar ôl Brexit.</p>
7.	<p>Creu Coetir Glastir: trefniadau'r ymgynghoriad</p> <p>Rhoddodd Evelyn Over, Swyddog Gweithredu Coetiroedd Glastir, gyflwyniad am y cynllun Creu Coetir Glastir: beth yw amcanion y cynllun, sut mae'n gweithio, pa sefydliadau sy'n cymryd rhan ynddo, pwy sy'n datblygu'r cynllun – y Cynllunydd Coetir – a sut y mae'n gyfrifol am yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r cynllun Creu Coetir wedi'i lywio gan fap cyfleoedd coetir Lle ac mae'n dilyn proses benodol ac yn ddarostyngedig i ganllawiau. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar gyfer adegau pan fo cynlluniau Creu Coetir Glastir ar gyfer tir a ddynodwyd yn dir mynediad agored ac sy'n cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus.</p> <p>Trafodaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai mynediad presennol yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw gynllun yn y dyfodol, ond nid oedd taliadau i wella mynediad yn rhan o'r cynllun Creu Coetir Glastir. • Roedd angen ystyried manau lle'r oedd cynlluniau Creu Coetir Glastir ar dir mynediad agored oherwydd, os nad ystyrir yn ystod yr adolygiad dilynol o'r tir mynediad agored (sy'n digwydd bob deng mlynedd) fod y tir yn bennaf yn fynydd, yn rhos, yn waun neu'n dwyn, mae'n bosibl y caiff ei dynnu oddi ar fap terfynol Mynediad Agored. O'r herwydd, byddid yn ymgynghori ag awdurdodau lleol ac awgrymwyd y dylent gysylltu â'u fforwm mynediad lleol.

	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd cydnabyddiaeth fod materion sy'n effeithio ar fwynhad pobl ar hawliau tramwy'n oddrychol. <p>Cam gweithredu 20.4: Dylai'r fforymau mynediad lleol sy'n dymuno yr ymgynghorir â nhw ynghylch cynlluniau Creu Coetir Glastir pan hysbysir eu hawdurdod wneud hyn yn glir i'w hawdurdod penodi a chytuno ar broses ar gyfer darparu cyngor mewn modd amserol.</p>
8.	<p>Cyfuno fforymau mynediad lleol</p> <p>Roedd Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam wedi dod i ddiwedd ei dymor ac fe'i hysbyswyd gan ei awdurdod y byddai'r fforwm mynediad lleol yn ymuno â Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint. Roedd rhywfaint o ansicrwydd yn hyn o beth, am nad oedd Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint wedi'i hysbysu am hyn mewn unrhyw fodd ffurfiol.</p> <p>Trafodaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • O dan y rheoliadau, gall awdurdodau penodi sefydlu fforymau ar y cyd. • Angen sicrhau eglurder ynghylch yr hyn a gynnigir. <p>Cam gweithredu 20.5: Y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd i drafod ac ystyried.</p>
9.	<p>Atomfa Wylfa: problemau cysylltiadau ceblau</p> <p>Siaradodd Dewi ap Rhobert yn y papur a gylchredwyd yn flaenorol am safbwyntiau a phryderon Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn mewn perthynas ag effaith y seilwaith, a fyddai'n arwain at linell ddwbl o beilonau ar draws yr ynys cysylltiedig â gwaith datblygu'r orsaf ynni. Mae'r fforwm mynediad lleol yn ystyried y bydd hyn yn cael effaith weledol anferth ac effaith negyddol ar hamdden awyr agored a mwynhad pobl o'r ardal. Gofynnodd am gefnogaeth cyfarfod Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol.</p> <p>Ystyriodd y cyfarfod y pwyntiau a wnaed gan Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn, a rhoddodd gefnogaeth lawn i'r fforwm mynediad lleol wrth nodi ei fod yn gwrthwynebu'r cynnig.</p>
10.	<p>Meincnodi: rhaglen waith fforymau mynediad lleol, trosglwyddo cyngor ffurfiol</p> <p>Cytunwyd i ychwanegu 'trosglwyddo cyngor ffurfiol i awdurdodau lleol' fel un o'r pynciau meincnodi, i sicrhau bod awdurdodau'n dal sylw ar gyngor a roddir iddynt. Os oes gan y fforwm mynediad lleol gyngor i'w gynnig i'r awdurdod, dylai gael ei ddrafftio gan yr ysgrifennydd, ei lofnodi gan gadeirydd y fforwm mynediad lleol a'i gyfeirio at y prif swyddog</p>

	<p>gweithredol. Roedd y mecanwaith hwn yn ddefnyddiol, pan oedd yn angenrheidiol.</p> <p>Dylai rhaglen waith y fforwm mynediad lleol gael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol a chael ei defnyddio i ddangos gwerth y fforwm mynediad lleol.</p> <p>Cam gweithredu 20.6: Y Cadeirydd i ddrafftio'r geiriad i'w gynnwys yn y gyfres o bynciau meincnodi.</p>
<p>11.</p>	<p>Adroddiadau gan fforymau</p> <p>Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Wedi penodi fforwm mynediad lleol newydd yn ddiweddar, gydag 19 o aelodau a bron hanner ohonynt yn fenywod. Mae dau o gynrychiolwyr yn defnyddio cadair olwyn. Roeddent wedi methu â dod o hyd i aelod i gynrychioli buddiannau beicio. Roedd Prif Weithredwr y Parc Cenedlaethol yn ymddeol yn fuan a byddai'n cael ei olynu gan Julian Atkins, a oedd yn gweithio fel y pennaeth cefn gwlad cyfredol.</p> <p>Rhondda Cynon Taf: Roedd yr is-gadeirydd wedi ymddeol yn ddiweddar ac roeddent yn ceisio meithrin perthnasau â'r awdurdod a chasglu aelodau newydd, gan gynnwys ystyried a fyddai newid amserau cyfarfodydd yn ddefnyddiol.</p> <p>Powys: Roedd y fforwm mynediad lleol yn ystyried cymryd yr ysgrifenyddiaeth drosodd oherwydd problemau a oedd wedi codi.</p> <p>Cam gweithredu 20.7: Y Cadeirydd i ystyried cynnwys Prif Weithredwr fel eitem ar agenda yn y dyfodol, a chynnwys siaradwr gwadd.</p> <p>Arfon Dwyfor: Wedi derbyn cyflwyniad defnyddiol am Orchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a nodi ei bod yn broses sy'n drwm ar adnoddau. Gellid sicrhau bod y cyflwyniad ar gael i eraill pe bai o ddiddordeb.</p>
<p>12.</p>	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf Cytunwyd i gynnal cyfarfod ddiwedd mis Mawrth yn Aberystwyth.</p>